CYFARFOD BWRDD RHEOLI ETHOLIADOL COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU

A GYNHALIWYD AM 10:00 AM AR 12 MEHEFIN 2026 YN CP2 A THRWY MICROSOFT TEAMS

Yn bresennol: Ian Bancroft (Cadeirydd); Eifion Evans (Dirprwy Gadeirydd); Bethan Williams Price (Aelod); Neal Cockerton (Aelod); Paul Orders (Aelod);

Swyddogion Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC) a oedd yn bresennol: Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mark Pascoe (Pennaeth Iechyd Democrataidd); Jo Nelson (Uwch Reolwr Etholiadau); Ellie Chapman (Swyddog Polisi Iechyd Democrataidd)

Ymddiheuriadau: Martin Nicholls (Aelod); Beverly Owen (Aelod)

Amser Dechrau: 10:03
Amser Gorffen: 10:25

Sesiwn gaeëdig ar gyfer aelodau'r Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE) a swyddogion

A. Amserlen arfaethedig cyfarfodydd 2026/27 – diwygiad

a. **Cytunwyd** i gynnal cyfarfod ychwanegol ar 9 Ebrill yn arwain at etholiadau lleol mis Mai 2027.

b. **Nodwyd** bod cyfarfod mis Mehefin wedi'i drefnu wythnos yn gynharach er mwyn osgoi gwyliau'r ysgol.

c. **Cytunwyd** ar y cyfarfodydd.

d. **Nodwyd** na fyddai Bethan yn gallu dod i gyfarfod mis Tachwedd.

B. Blaenraglen waith

a. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 5 Mehefin.

b. **Nodwyd** na fydd Bethan yn gallu dod i gyfarfod mis Tachwedd i ddarparu'r archwiliad dwfn o gyfathrebu. Yn lle hynny, bydd y gwaith yn cael ei gwblhau ymlaen llaw.

c. Nodwyd y bydd rhai cytundebau'n syrthio y tu allan i'r cylch cyfarfodydd, fel tendr y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (WEIP). Yn yr achosion hyn, bydd y BRhE yn ysgrifennu at yr Aelodau gan ddefnyddio'r Grŵp Llywio i wneud argymhellion.

C. Aelodaeth y Bwrdd

a. **Nodwyd** bod Karen wedi ysgrifennu at bedwar Aelod statudol y Bwrdd, ac y disgwylir llythyrau i gadarnhau eu haelodaeth yr wythnos nesaf, ar ôl i'r llythyrau penodi gael eu cyfieithu.

b. Nodwyd bod Martin wedi gofyn am benodiad blwyddyn tra bod y gweddill am 4 blynedd.

c. Nodwyd bod Paul yn camu i lawr fel Aelod.

d. Nodwyd bod pedwar Swyddog Canlyniadau ar y Bwrdd ar hyn o bryd, a bod y BRhE yn ystyried ychwanegu Swyddog Canlyniadau a benodwyd yn fwy diweddar i ymestyn arbenigedd y Bwrdd ac fel rhan o bwyslais ehangach ar gadw aelodau.

e. Nodwyd y bydd rhaid i benodiadau newydd gael eu cymeradwyo yng nghyfarfod Bwrdd CDFfC ar ddiwedd y mis.

f. Rhoddodd Paul ddiweddariad ar benodi Aelod newydd. Mae wedi siarad â'r Swyddog Canlyniadau ar gyfer Rhondda Cynon Taf, sef Andy Wilkins, sy'n fodlon bod yn Aelod o'r Bwrdd. **Cytunwyd** y dylai'r Cadeirydd wneud gwaith dilynol ynglŷn â hyn.

g. Trafodwyd rôl y Dirprwy Gadeirydd gan y bydd Eifion yn camu i lawr o'r rôl hon.

h. Cytunwyd y byddai Neal yn Ddirprwy Gadeirydd newydd y BRhE.

D. Ffyrdd o weithio

a. Trafodwyd dosbarthu arweinyddiaeth yn ehangach, ac ystyriwyd galluogi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y gweithgor i arwain a ffurfio trafodaethau ar eitemau'r agenda.

b. Trafodwyd hwyluso cyfranogiad ehangach mewn trafodaethau a dadleuon. **Cytunwyd** y bydd agendâu yn y dyfodol yn cynnwys eitem benodol i'w thrafod er mwyn sicrhau bod yr holl fynychwyr yn cael cyfle i gyfrannu.

c. **Nodwyd** bod neges e-bost yn cael ei hanfon yn flaenorol ar ôl pob cyfarfod Bwrdd. Trafodwyd amlygu dull mwy effeithiol o gyfleu diweddariadau gan y BRhE.

d. **Nodwyd** y bydd cofnodion y flwyddyn flaenorol yn cael eu cyhoeddi, ac y bydd cofnodion yn cael eu cyhoeddi'n gynharach i'w hanfon at Swyddogion Canlyniadau.

e. **Nodwyd** bod y Cadeirydd yn mynychu cyfarfodydd rhanbarthol â'r 22 Swyddog Canlyniadau yng Nghymru.

f. **Nodwyd** y bydd dau weithdy'n cael eu cynnal yn yr hydref.

g. **Cytunwyd** i beidio â chynnal sesiwn gaeëdig cyn pob cyfarfod o'r BRhE oni bai bod angen, gyda lleiafswm o ddau y flwyddyn.

h. **Cytunwyd** i anfon gwahoddiad cyfarfod ar wahân i'r sesiwn gaeëdig.

i. Diolchwyd i Paul Orders ac Eifion Evans am eu cyfraniad at y Bwrdd.